# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y caiff arweiniad manwl yn erbyn bwlio homoffobig ar gyfer ysgolion ei ryddhau, ac a wnaiff hefyd gadarnhau pryd y bydd yr arolwg manwl am fwlio mewn ysgolion (a grybwyllwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 23ain Medi 2009) yn cael ei ryddhau. (WAQ55866)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mawrth 2010***

Bydd y canllawiau gwrth-fwlio newydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn hwyrach yn ystod y gwanwyn eleni. Bydd y canllawiau nid yn unig yn cwmpasu bwlio homoffobig, ond hefyd bwlio sy'n ymwneud â hil, diwylliant a chrefydd; AAA ac anabledd; seiberfwlio; bwlio rhywiaethol a rhywiol; a bwlio sy'n targedu pobl drawsrywiol.
Bydd adroddiad manwl yr arolwg ar fwlio ar gael ar y wefan fis nesaf.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diogelu dyfodol purfa olew Chevron yn sir Benfro. (WAQ55861)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Cyfarfûm â'r Rheolwr Gweithdrefnau ym mhurfa Chevron ar 11 Chwefror i drafod y sefyllfa a chynnig cefnogaeth lawn Llywodraeth Cynulliad Cymru i siaradais â Rheolwr y Safle ar 9 Mawrth yn dilyn ail gyhoeddiad y cwmni i drafod y sefyllfa sy'n datblygu; ac rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y cwmni yn California i gynnig ein cefnogaeth a gofyn am gyfarfod pellach.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi’u cael gyda'r Trysorlys ynghylch Cyllid Cymru. (WAQ55871)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch y driniaeth gyfrifyddu briodol ar gyfer benthyciadau allanol Cyllid Cymru.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Cyllid Cymru. (WAQ55872)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, cyfarfûm yn ddiweddar â Chadeirydd Cyllid Cymru i drafod dyfodol strategol Cyllid Cymru a'r cyfleoedd sydd ar gael iddo. Mae trafodaethau'n parhau. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad pan fyddaf mewn sefyllfa i wneud hynny.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Pryd y bydd canlyniadau ymgynghoriad y Strategaeth Tlodi Tanwydd yn hysbys a pha adnoddau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae'r Gweinidog yn fodlon eu hymrwymo i ddileu tlodi tanwydd. (WAQ55864)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Caiff y Strategaeth Tlodi Tanwydd terfynol ei chyhoeddi cyn toriad yr haf.
Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i weithio tuag at ddileu tlodi tanwydd ac rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth sicrhau arian ychwanegol i weithredu ar dlodi tanwydd.
Rydym wedi neilltuo dros £30 miliwn o arian ychwanegol a dderbyniwyd drwy'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol ar gyfer cam cyntaf Arbed. Bydd yr arian hwn yn ei gwneud yn bosibl buddsoddi mewn prosiectau perfformiad ynni domestig mawr ledled Ardaloedd Adfywio Strategol Cymru, a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi, yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac yn creu swyddi ar gyfer trigolion Cymru a chyfleoedd economaidd ar gyfer busnesau Cymru. Drwy ddefnyddio'r arian hwn yn strategol disgwylir sicrhau buddsoddiad pellach o £20 miliwn o leiaf gan gwmnïau ynni drwy'r Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned.
Gwnaethom gyhoeddi hefyd ar 17 Mawrth y bydd £34 miliwn o arian Ewropeaidd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru ac rydym yn gweithio ar gynigion ar hyn o bryd i gyflawni'r buddsoddiad hwn.
Cyhoeddais ym mis Chwefror hefyd y byddai buddsoddiad ychwanegol o £3.9 miliwn ar gael yn 2010-11 i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Caiff £1.4 miliwn o'r arian hwn ei fuddsoddi yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, gan sicrhau cyllideb o dros £20 miliwn, a chaiff £2.5 miliwn ei fuddsoddi mewn cynllun gwaredu boeleri newydd gan gynorthwyo hyd at 5,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A yw'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi ac os felly, pryd y cafodd ei roi ar waith yn ffurfiol. (WAQ55865)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Cyflwynwyd y Fframwaith Cenedlaethol a'r Canllawiau sydd mewn grym ar hyn o bryd yn 2004 fel cylchlythyrau NAFWC 41/2004 a NAFWC 41a/2004 ac fe'u diweddarwyd gan gylchlythyr NAFWC 32/2006 a gyflwynwyd ym mis Hydref 2006. Mae fframwaith diwygiedig ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG o dan ystyriaeth.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad ei swyddogion at waith yr Adran Iechyd ar wella'r cyflenwad o feddyginiaethau. (WAQ55868)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae fy swyddogion yn cymryd rhan mewn trafodaethau parhaus gyda'r Adran Iechyd a gweinyddiaethau eraill i sicrhau y cynhelir y cyflenwad o feddyginiaethau hanfodol i gleifion.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol sydd ar gael ar gyfer ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru ac sydd wedi dioddef artaith. (WAQ55869)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae'r GIG yng Nghymru yn darparu gofal iechyd i bobl sydd fel arfer yn byw yn y DU. Nid oes gan bobl nad ydynt fel arfer yn byw yn y wlad hon hawl awtomatig i ddefnyddio'r GIG am ddim.

Mae angen i geiswyr lloches, ffoaduriaid a'u dibynyddion, sy'n ffoi rhag erledigaeth yn eu gwlad eu hunain, fod yn breswylwyr arferol er mwyn cael hawl i ddefnyddio'r GIG. Gall y rheini sy'n dod i Gymru ac y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol arnynt, gael gafael ar wasanaethau yn y ffordd arferol. Pan fydd angen gwneud ymyriadau brys, ni chaiff triniaeth ei gwrthod i unigolion. Disgwyliaf y caiff gofal pob claf unigol ei reoli yn unol â darpariaeth y gwasanaeth iechyd meddwl lleol ac yn unol â safonau cenedlaethol.

Gall ffoaduriaid y mae eu ceisiadau am loches wedi methu fod yn ddiymgeledd neu'n ddigartref ac fel arfer dim ond cymorth brys y byddant yn ei gael. Yng Nghymru rydym wedi penderfynu na chaiff gofal iechyd ei wrthod i rywun sy'n mynd yn sâl o dan yr amgylchiadau hynny, ac na chaiff yr unigolyn ei orfodi i dalu pan nad oes ganddo ffordd o wneud hynny.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Phrif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ynghylch targedau amseroedd ymateb ambiwlansiau. (WAQ55873)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid wyf fel arfer yn cynnal trafodaethau â Phrif Weithredwyr unigol cyrff y GIG. Fel arfer Cyfarwyddwr Cyffredinol y GIG yng Nghymru sy'n cynnal cyfarfodydd â Phrif Weithredwyr. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd ar faterion Ambiwlans amhenodol lle roedd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans yn bresennol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd y cafodd y Gweinidog wybod y byddai Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn rhoi'r gorau i'w swydd. (WAQ55874)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid oes unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar waith i roi gwybod i mi am ymddiswyddiadau ymhlith uwch swyddogion Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gan nad wyf yn gyflogwr arnynt.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd oedd cyfarfod diwethaf y Gweinidog gyda Phrif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. (WAQ55875)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid wyf fel arfer yn cynnal trafodaethau â Phrif Weithredwyr unigol cyrff y GIG. Fel arfer Cyfarwyddwr Cyffredinol y GIG yng Nghymru sy'n cynnal cyfarfodydd â Phrif Weithredwyr. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd ar faterion Ambiwlans amhenodol lle roedd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans yn bresennol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Pa feini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer y penderfyniad i dynnu cyllid craidd yn ôl gan Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru. (WAQ55862)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Gwnaeth Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru gais am arian o dan Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb 2010-13 a agorwyd ym mis Medi 2009 ond bu'n aflwyddiannus.

Aseswyd pob cais ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd.

Nodir y meini prawf a ddefnyddiwyd i lywio'r broses asesu yn y Meini Prawf a Phecyn Cais y gellir eu gweld ar y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/equality/090930criappaefcy.doc

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ailystyried a newid ei benderfyniad i dynnu cyllid craidd yn ôl gan Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru. (WAQ55863)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Gwnaeth Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru gais am arian o dan gylch ceisiadau'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ar gyfer 2010 - 2013 a agorwyd ym mis Medi 2009. Roedd y cais yn aflwyddiannus.

Roedd Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru wedi bod yn cael arian gan y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb ers 2001. Cafodd gyllid craidd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2005-2008 ac roedd cyllid trosiannol ar gael iddi yn 2008-09 ac yn 2009-10.

Mae arian o dan y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb wedi'i ddyrannu ac mae'r ymgeiswyr llwyddiannus wedi'u hysbysu.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid ar waith. (WAQ55867)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd nifer o gamau gweithredu yn unol â strategaeth gyffredinol y Strategaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid er mwyn cefnogi a galluogi ffoaduriaid i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru.

Rydym yn trafod yn rheolaidd â'n cyd-weinidogion yn San Steffan, Asiantaeth Ffiniau'r DU a rhanddeiliaid yn y sector statudol a gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau er mwyn datblygu cynhwysiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymdeithas yng Nghymru yn llwyddiannus. Rydym wedi penodi secondai o'r Sector Ffoaduriaid i sicrhau bod y cynllun yn hyrwyddo newid ystyrlon sy'n seiliedig ar wybodaeth a phrofiad arbenigol.

Rydym wedi gweithredu a lansio'r canlynol:

- Darparu gwasanaethau iechyd i holl geiswyr lloches drwy eithrio ffioedd y GIG ar gyfer ceiswyr lloches aflwyddiannus, cynllun a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sgrinio iechyd cyhoeddus i holl geiswyr lloches sydd newydd gyrraedd gan gynnwys plant yng Nghaerdydd.
- Arian i Awdurdodau Addysg Lleol a dargedir er mwyn cefnogi Cynhwysiant Ffoaduriaid mewn ysgolion.

• Pecyn 'Deall Cymru' i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chysylltiadau â chyrff sector cyhoeddus, cyrff rheoleiddio a chyrff perthnasol y llywodraeth, mewn ieithoedd a siaredir gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae Cynhwysiant Ffoaduriaid hefyd wedi ei hwyluso gan Wasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac ystod o fentrau sector gwirfoddol sydd wedi'u hanelu'n benodol at hyrwyddo Cynhwysiant Ffoaduriaid gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Alltudion ar Waith a'r Groes Goch ym Mhrydain.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y caiff y gwasanaethau a ddefnyddir gan ffoaduriaid eu mapio a'u monitro yng Nghymru. (WAQ55870

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Lansiwyd 'Ffoaduriaid yn byw yng Nghymru, Arolwg o sgiliau, profiadau a rhwystrau i gynhwysiant' gan y Gweinidog blaenorol ym mis Tachwedd 2009. Hwn oedd yr arolwg cyntaf i adlewyrchu profiad ffoaduriaid yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n cynnig ymateb pragmatig i'r diffyg gwybodaeth a geir ar hyn o bryd er mwyn llywio polisïau ac ymarfer o ran integreiddio ffoaduriaid a materion yn ymwneud â chydlyniant cymunedol. Cynlluniwyd yr arolwg mewn ymgynghoriad â llunwyr polisïau ac ymarferwyr er mwyn ystyried y dangosyddion allweddol o ran cynhwysiant megis iaith, tai, cymorth, sgiliau, cymwysterau, cyflogaeth ac iechyd a lles mewn perthynas ag amgylchiadau ac anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru. Mae'n rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r cynllun ar gyfer Cynhwysiant Ffoaduriaid.

Fodd bynnag mae nifer o broblemau o ran casglu data. Yn gyntaf, os yw ffoaduriaid wedi cael caniatâd i aros yn y DU, nid oes angen iddynt roi gwybod i wasanaethau eu bod yn ffoaduriaid. Yn ail, Asiantaeth Ffiniau'r DU sy'n darparu gwasanaethau i Geiswyr Lloches.
Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Integreiddio Ffoaduriaid a Chyflogaeth, a reolir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, wedi dechrau gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen integreiddio hon a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac sy'n para blwyddyn. Mae trafod â rhanddeiliaid a sefydliadau lleol megis CLlLC yn ddull arall y gall swyddogion ei ddefnyddio i gael gwybodaeth.